Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref MA/P/MD/0550/17
Ein cyf/Our ref

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion
Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

22 Chwefror 2017

Annwyl David,

Rwyf yn ysgrifennu i ymateb i'r cais a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yr oeddwn yn bresennol ynddo ar 23 Ionawr am ragor o wybodaeth ynghylch neilltuo cyllid yr UE.

Cytunais i ddarparu manylion y buddsoddiadau o gyllid yr UE a wnaed hyd yn hyn ar draws rhaglenni presennol yr UE a reolir gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r manylion fel a ganlyn:

Cronfeydd Strwythurol 2014-2020: Swm a neilltuwyd fesul rhaglen

£ Miliwn

| Rhaglen | Dyraniad | | Wedi'i neilltuo | | Cyfran o'r dyraniad | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Grant yr UE | Cyfanswm | Grant yr UE | Cyfanswm | Grant yr UE |
| ERDF y Gorllewin a'r Cymoedd | 1,562 | 1,029 | 1,126 | 603 | 72% | 59% |
| ERDF y Dwyrain | 348 | 174 | 234 | 107 | 67% | 62% |
| ESF y Gorllewin a'r Cymoedd | 922 | 686 | 802 | 514 | 87% | 75% |
| ESF y Dwyrain | 353 | 174 | 337 | 99 | 95% | 57% |
| **Cyfanswm** | **3,184** | **2,062** | **2,500** | **1,324** | **78%** | **64%** |

Ffynhonnell: WEFO, 15/01/2017

[1] Ar sail cyfradd drosi o £1:€1.17

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rhaglen Iwerddon Cymru 2014–2020

Mae Rhaglen Iwerddon Cymru hefyd yn gwneud cynnydd da. Erbyn diwedd mis Ionawr 2017, roeddem wedi buddsoddi €40 miliwn o gyllid yr UE, sy'n cynrychioli 50.4% o gyfanswm y dyraniad o gyllid yr UE.

Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020

Yn olaf, o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig, mae £394 miliwn o gyllid yr UE wedi cael ei fuddsoddi mewn cynlluniau sy'n werth dros £547 miliwn (57% o'r rhaglen).

**Cyllid y dyfodol**

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i fanylu ar bwynt a wnes yng nghyfarfod y Pwyllgor mewn perthynas â sicrhau cyllid ar gyfer y dyfodol gan Drysorlys y DU ar ôl 2020 i ddiwallu anghenion economaidd Cymru. Dywedais, hyd yn oed pe na bai Cymru wedi bod yn gymwys am y cylch nesaf o Gronfeydd Strwythurol y byddai wedi bod yn gymwys ar gyfer cyllid pontio yn sgil aelodaeth y DU o'r UE. Awgrymais y byddai hynny, yn y cylch presennol, wedi arwain at gael 70% o gyfanswm dyraniad y cylch blaenorol.

I osod hyn yn ei gyd-destun, er nad oes negodiadau llawn yn mynd rhagddynt eto ynghylch cadarnhau polisi a sut i rannu Cronfeydd Cydlyniant yr UE ar ôl 2020, pe defnyddid y cynnyrch domestig gros fesul pen fel y prif faen prawf eto, mae'n debygol iawn y byddai'r Gorllewin a'r Cymoedd yn gymwys ar gyfer y lefel uchaf o'r Cronfeydd Strwythurol a'r Ardaloedd a Gynorthwyir yn hytrach nag unrhyw gyllid pontio. Y rheswm dros hyn yw bod twf yn y DU yn gyfan yn arafach nag yn Aelod Wladwriaethau tlotaf yr UE a bod ei safle yn gostwng o ganlyniad i hynny. Ar ben hyn, mae'n debygol y byddai'r Dwyrain hefyd wedi parhau i gael cyllid, ac er y byddai wedi bod ar lefel is gallai fod wedi bod yn ddigon i'r cyfanswm ar gyfer Cymru gyfan adlewyrchu lefel debyg i'r lefel bresennol.

Fan leiaf, byddai rhanbarth y Gorllewin a'r Cymoedd wedi bod yn gymwys ar gyfer cymorth y Cronfeydd Strwythurol fel 'rhanbarth pontio' sy'n denu tua 60% o'r cyllid sydd ar gael i'r rhanbarthau lleiaf datblygedig o dan reoliadau rhaglen 2014-2020. Ar y cyd â dyraniad tebyg i'r hyn a gaiff ei roi yn ystod cyfnod y rhaglen bresennol i'r Dwyrain, golyga hyn y byddai Cymru'n gallu denu tua 67% o'r swm y mae'n ei gael ar hyn o bryd.

Er hyn, i'r Aelod Wladwriaethau y dyrannir cyllid yr UE ac yn y DU mae swm y dyraniadau terfynol i'r gweinyddiaethau datganoledig yn ddibynnol ar drafodaethau pellach gyda Llywodraeth y DU. Ers 2007, mae hyn wedi arwain at ddyraniad cymesur o gyfanswm y cyllid a ddyrannir i'r DU i bob cenedl. Byddai'n rhesymol disgwyl i'r un system barhau ar gyfer y cyfnod ar ôl 2020 gan gymryd y bydd yr un anghenion tebyg yn bodoli.

I grynhoi felly, byddai'n rhesymol disgwyl i Gymru gael rhwng 67% a 100% o'r cyfanswm o'r Cronfeydd Strwythurol y mae'n ei gael ar hyn o bryd ar ôl 2020 gyda thebygrwydd y byddai'r swm yn nes at ben uchaf yr ystod. Gobeithio y bydd yr eglurhad hwn o gymorth i'r Pwyllgor o safbwynt y gwaith ar ddyfodol y Polisi Rhanbarthol.

Yn gywir,

Mark

**Mark Drakeford AC/ AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government